# Protocol Cludiant i'r Ysgol (Lleoliadau Prif Ffrwd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol)

Medi 2021

## Cyflwyniad

Mae'r protocol hwn yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru ac mae'n nodi'r disgwyliadau a phrif bwyntiau i rieni/gofalwyr, eu plant a chontractwyr cludiant a'u staff tra'n teithio ar, neu'n gweithredu cludiant i'r ysgol ar ran Cyngor Sir y Fflint.

Dylai fod yn berthnasol ar bob llwybr cludiant i'r ysgol sy'n gwasanaethu lleoliadau addysgu yn Sir y Fflint a cholegau ac ysgolion lle mae'r cludiant yn dechrau yn Sir y Fflint.

PROOF

## Disgwyliadau ar gyfer rhieni a dysgwyr

Cyfrifoldeb y rhieni yw:

- Sicrhau nad yw dysgwyr yn teithio os bydd gan unrhyw un yn yr aelwyd symptomau, os ydynt wedi cael prawf LFT neu PCR positif neu os bydd un o swyddogion y Tîm Profi, Olrhain a Diogelu wedi cysylltu â nhw yn dweud y dylent ynysu am gyfnod penodol.
- Sicrhau bod gan eich plentyn 11 oed a hŷn gyflenwad o orchuddion wyneb cyn teithio bob bore a phrynhawn. **Mae'n rhaid i'ch plentyn 11 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb ar gludiant ysgol oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag gwneud hynny am resymau meddygol.**
- I gydnabod dim goddefgarwch am ymddygiad gwael ar gludiant (gan gynnwys amgylchiadau lle mae'r dysgwr yn methu â dilyn cyfarwyddiadau a roddir).
- I sicrhau bod dysgwyr yn golchi eu dwylo (neu i ddysgwyr iau, bod rhieni yn gwneud hyn drostynt) neu ddefnyddio diheintydd dwylo cryfder priodol cyn gadael eu cartref neu ysgol i fynd ar eu cerbyd.
- I atgoffa dysgwyr i ddod i mewn ac allan o'r cerbyd mewn un llinell. Bod y rhai dros 11 oed yn cadw pellter lle bo hynny'n bosibl tra'n aros ac yn ciwio.
- I atgoffa dysgwyr bod rhaid iddynt sicrhau eu bod yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y gyrrwr neu staff yr ysgol/coleg.
- Cofio y bydd Cod Teithio i'r Ysgol a fframwaith ymddygiad yn parhau'n weithredol. Bydd unrhyw ddysgwr sydd yn camymddwyn, yn achosi difrod i'r cerbyd, anaf i'r gyrrwr neu deithwyr eraill neu yn bygwth iechyd a diogelwch teithwyr eraill mewn unrhyw ffordd yn destun gwaharddiad o Gludiant Ysgol Sir y Fflint ar unwaith.
- Bydd rhaid i rieni drafod cynllun wrth gefn gyda'u plant, os fydd y dysgwyr yn y safle bws a heb gael eu codi gan y gyrrwr (e.e. os yw'r gyrrwr yn dod yn wael ac o ganlyniad i oedi'r cludiant ar y funud olaf). Dylai dysgwyr ysgolion uwchradd a cholegau sicrhau eu bod yn cario eu tocynnau bws gyda nhw bob amser. Os yw eich plentyn yn cael ei adael ar ochr y ffordd, bydd angen i chi sicrhau bod eich plentyn yn gwybod beth i'w wneud a dylech drafod hyn gyda'ch plentyn.




Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Seddi ar gael ar gludiant a defnyddio gorchuddion wyneb

**Ysgolion cynradd**

- Mae holl seddi ar gael i ddysgwyr eu defnyddio oni bai am y rhai sy'n wynebu cefn y cerbyd.
- Mae'n rhaid gwisgo gorchuddion wyneb.

**Ysgolion uwchradd a cholegau**

- Mae holl seddi ar gael i ddysgwyr eu defnyddio oni bai am y rhai sy'n wynebu cefn y cerbyd.
- Mae angen gorchuddion wyneb.

**Lleoliadau ysgol anghenion dysgu ychwanegol (cynradd ac uwchradd)**

- Mae holl seddi ar gael i ddysgwyr eu defnyddio oni bai am y rhai sy'n wynebu cefn y cerbyd.
- Mae'n rhaid gwisgo gorchuddion wyneb.
- Bydd angen i ddysgwyr sy'n gymwys am gludiant am ddim ac yn teithio ar wasanaethau bws lleol, ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithredwr. Bydd angen iddynt barhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n nodi bod rhaid gwisgo gorchudd wyneb ar bob cludiant cyhoeddus.

## Defnyddio gorchuddion wyneb

Mae'r rhain yn ofynnol ar gyfer pob dysgwr mewn addysg uwchradd a thertaidd, does ots ar ba gludiant maent yn teithio.

- Os yw eich plentyn yn 11 oed neu'n hŷn mae'n rhaid iddynt wisgo gorchudd wyneb bob amser tra'n teithio. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gan eich plentyn gyflenwad o orchuddion wyneb cyn teithio bob bore a phrynhawn.
- Nid fydd angen i rai dysgwyr wisgo gorchudd wyneb. Mae'r dysgwyr hynny'n cynnwys y rhai, wrth wisgo gorchudd wyneb a fydd yn creu risg meddygol, achosi trallod, os oes gan y dysgwr anghenion dysgu ychwanegol.
- Dylai gyrwyr wisgo gorchuddion wyneb.
- Os fydd angen i yrwyr gynorthwyo i gau gwregysau diogelwch ar gyfer plant bach, neu lwytho cadeiriau olwyn, yna dylid defnyddio gorchuddion wyneb, ynghyd â rhoi diheintydd dwylo yn rheolaidd.

## Cadw mor ddiogel â phosibl

Dylai dysgwyr gymryd y rhagofalon canlynol:

- Dylai'r rhai dros 11 mlwydd oed gadw pellter rhag pobl y tu allan i'w haelwyd tra'n aros am eu cludiant.
- Ceisio lleihau'r nifer o arwynebau a gyffyrddir.
- Golchwch neu glanhewch ddwylo gyda diheintydd priodol cyn mynd mewn i gludiant ac ar ddiwedd eich siwrnai.
- Sicrhau na fydd plentyn yn defnyddio cludiant nac yn mynychu'r ysgol os oes ganddynt symptomau.
- Sicrhau bod eich plentyn yn dilyn yr holl gyfarwyddiadau gan yrwyr a staff, yn eistedd ac yn aros yn eu seddi penodedig ar gyfer hyd y siwrnai.
- Bod â chynllun wrth gefn os na fydd y cludiant yn cyrraedd (e.e. os fydd gyrrwr yn wael ar fyr rybudd).
- Os yw eich plentyn yn datblygu symptomau yn yr ysgol, bydd angen i chi wneud trefniadau i gasglu eich plentyn. Ni fydd plant sydd â symptomau yn cael defnyddio cludiant i ddysgwyr neu wasanaethau bws lleol.

PROOF

## Disgwyliadau i ddysgwyr

- Bydd dysgwyr yn mynd ar y cerbyd yn dawel, un ar y tro, heb wthio.
- Mae rhieni, wrth ganiatáu i'w plant ddefnyddio cludiant i ddysgwyr, yn derbyn ac yn cytuno i'r telerau a nodir yn y protocol hwn. Bydd rhaid i rieni rannu'r ddogfen hon gyda'u plant a thrafod hyn gyda nhw.
- Ar sail iechyd y cyhoedd, bydd polisi dim goddefgarwch o ran ymddygiad a seddi ar gludiant i ddysgwyr, gan gynnwys wrth stopio ac wrth godi a gollwng teithwyr. Os na fydd dysgwyr yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, bydd eu cynnig cludiant yn cael ei dynnu'n ôl ar unwaith.
- Rhaid i ni gadw rhestr gywir er mwyn gallu cydweithredu â gweithdrefnau Profi, Olrhain a Diogelu ac os oes angen byddwn yn rhannu eich manylion gyda'r asiantaethau perthnasol sy'n cynorthwyo i stopio lledaeniad y coronafeirws. Felly mae hi'n bwysig mai dim ond y rhai sydd â'r hawl sydd yn defnyddio cerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol.
- Bydd angen i holl ddysgwyr olchi eu dwylo yn drylwyr yn unol â chanllawiau cenedlaethol cyn gadael eu cartref ar gyfer y siwrnai cludiant i ddysgwyr ac eto yn y prynhawn yn yr ysgol.
- Os bydd plentyn yn dangos symptomau yn yr ysgol, ni ddylai dysgwyr fynd ar y cerbyd. Yn hytrach, bydd yr ysgol yn dilyn eu polisïau eu hunain ar gyfer cyfyngu'r feirws ac yn delio â'r dysgwr heb fynd ar y cerbyd. Bydd angen i'r rhieni gasglu eu plentyn.

## Disgwyliadau i gontractwyr

- Bydd gan gontractwyr asesiad risg a systemau diogelwch diwygiedig o weithio drwy ddefnyddio cerbydau a chyflogi gyrwyr yn ystod y coronafeirws. Mae'r Cyngor wedi darparu model asesiad risg i gynorthwyo contractwyr. Bydd asesiad y contractwyr yn cynnwys arferion da yn safle'r contractwyr. Bydd contractwyr yn rhannu eu hasesiadau wedi'u cwblhau gyda'r Cyngor.
- Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o haint, bydd contractwyr fel arfer yn dynodi'r un gyrrwr a'r un cerbyd i bob contract.
- Bydd y gyrwyr yn ystyried eu hiechyd eu hunain cyn cyflawni bob siwrnai cludiant i ddysgwyr. Rhaid i yrwyr fod yn ymwybodol o asesiadau risg y contractwr, systemau diogel o weithio a chanllawiau cenedlaethol.
- Ar gerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i'r ysgol sydd â mwy nag wyth sedd, bydd gyrwyr yn llwytho teithwyr o'r cefn i'r blaen ac yn dadlwytho o'r blaen i'r cefn lle bo hynny'n bosibl.
- Ar gyfer cerbydau heb sgrin gymeradwy briodol, gall y gyrwyr adael eu cerbyd i aros tu allan wrth i'r dysgwyr fynd a dod oddi ar y cerbyd. Argymhellir hyn. Bydd angen i ddysgwyr adael i'r gyrrwr adael drwy gadw pellter o'r drws.
- Er mwyn cynorthwyo i gydymffurfio a gorfodi'r uchod, bydd holl gerbydau gyda chapasiti dros 16 o seddi yn cael eu gosod gyda theledu cylch caeedig gweithredol. Rhaid i gontractwyr hysbysu'r Cyngor os na fydd hyn yn digwydd. Gall fethiant i ddarparu cerbyd gydag offer o'r fath, arwain at wneud cais am ddidyniadau ariannol fel y nodir o dan Amodau'r Contract.
- Bydd parcio mewn sefydliadau a lleoliadau o dan gyfarwyddyd yr ysgolion a cholegau.
- Mae ysgolion yn cael eu hannog i sicrhau bod yna niferoedd priodol o staff ar gael i gwrdd â cherbydau/dysgwyr pan fyddant yn cyrraedd, bydd staff yn hebrwng dysgwyr o'r cerbyd i'r adeilad, ac yn y prynhawn, yn eu hebrwng o'r adeilad at y cerbyd dan gontract yn y drefn i fynd ar y cerbyd.
- Tra'u bod ar safle addysgol, dylai'r gyrwyr aros bellter priodol o holl yrwyr a staff eraill.
- Dylai cerbydau gael eu hawyru'n naturiol drwy agor ffenestri, neu le bynnag bosibl ffenestri ar y to, yn hytrach na rheolydd aer, aerdymheru neu systemau awyru sy'n ailgylchu aer. Dylai gyrwyr coetsys sydd heb ffenestri sy'n agor, sicrhau nad yw aerdymheru yn cael ei osod i ailgylchu aer.

PROOF

## Glanhau

- Rhaid i gontractwyr sicrhau bod yr holl gerbydau'n cael eu glanhau'n drylwyr unwaith y diwrnod i safon sy'n uwch na gyflawnir fel arfer. Mae'r arwynebau sydd angen sylw arbennig yn cynnwys yr olwyn llywio; handbrêc, gêr a ffasgia, handlenni drws (tu mewn ac allan); handlenni/botymau ffenestri; seddi ac arwynebau caled o amgylch y seddi sydd wedi cael eu defnyddio.
- Mae cynnyrch glanhau arferol yn ddigonol ar gyfer gwneud hyn, gan gynnwys weips diheintio untro, er bod defnyddio "tarth" yn parhau i fod yn ddull ychwanegol a ffefrir ar gyfer glanhau.
- Yn ogystal â hynny, bydd contractwyr yn sicrhau bod holl fannau cyffwrdd mewnol ac allanol yn cael eu glanhau rhwng bob taith.
- Dylai gyrwyr olchi eu dwylo yn aml neu ddefnyddio hylif diheintio addas sydd ag o leiaf 70% o alcohol. Ni ddylai gyrwyr adael cynnyrch glanhau/diheintwyr lle gall y teithwyr eu cyrraedd.

## Gwregysau diogelwch

- Lle bynnag bosib, dylai dysgwyr fod yn gyfrifol am gau eu gwregysau diogelwch eu hunain. Nid yw hyn bob amser yn bosibl i blant ifanc neu'r rhai ag anghenion ychwanegol penodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, os fydd y cerbyd yn ôl y dysgwr o gyfeiriad y cartref, dylai rhieni sicrhau bod eu plant wedi cau eu gwregysau diogelwch. Gwisgwch orchudd wyneb os ydych chi'n mynd mewn i gerbyd i gynorthwyo eich plentyn. Dylai aelod o staff yr ysgol eu cynorthwyo i wneud hyn yn yr ysgol.

PROOF